# Etholiadau'r UM: Sesiynau Gwybdoaeth

## Sut mae cynnal ymgyrch etholiadol llwyddiannus



# Cynnwys

- Cyflwyniadau
- Sut beth yw ymgyrch?
- Cynllunio
- Cyhoeddusrwydd
- Yr Wythnos Bleidleisio




“Ni yw’r newid ac mae’r newid ar ddod”

Greta Thunberg

# Cyflwyniadau

- Beth yw dy enw?
- Beth yw dy rôl bresennol yn Undeb y Myfyrwyr?
- Pam wnest ti benderfynu dod heddiw?
- Beth yw dy nod trwy ddod yma heddiw?






# Sut beth yw ymgyrch?

**Yn ôl yr NCVO ‘Pwrpas ymgyrchu yw creu newid. Gellid ei disgrifio fel dylanwadu, lleisio, pleidio neu ymgyrchu, ond yn y bôn, creu newid yw nod yr holl weithgareddau hyn’. Mae’n bwysig nodi bod hyn ar wahân i ‘Codi Ymwybyddiaeth’ oherwydd fod yna effaith wirioneddol.**

**Fel arfer, mae gwleidyddion yn cynnal ymgyrch etholiadol yn y cyfnod cyn etholiad i geisio denu pleidleisiau.**

# Cynllunio



STAND
BETH YW EICH CAMAU NESAF?
Dechreuwch eich
WHAT ARE YOUR NEXT STEPS?
Kickstart your

# Ysgrifennu Eich Proffil Etholiadau

**Mae hyn ffordd o greu maniffesto clir o bopeth dych chi eisiau ei wneud.**



## Rhestr wirio



- ☑ Rhywbeth o bwys i chi
- ☑ Rhywbeth o bwys i fyfyrwyr
- ☑ Cyraeddadwy

**Pam nad yw'r Undeb yn gofyn am faniffestos?**

# Gwybod pwy i’w dargedu


Bydd rhai yn pleidleisio drostoch chi doed a delo ee eich ffrindiau. Bydd rhai na fydd byth yn bwrw pleidlais drostoch – does dim pwynt gwastraffu eich amser yn targedu pobl a allai bleidleisio, yn lle, mae’n well annog iddynt ddeall pan eich bod yn sefyll. Dyma’r bobl y dylech chi ganolbwyntio arnynt fwyaf.




# Eich Slogan

Mae eisiau slogan bachog o ystyried mai dyma'r peth cyntaf y bydd pobl yn ei weld ar y dudalen bleidleisio

Mae modd ei wneud yn ddoniol a bachog neu i chi ei ddefnyddio i grynhoi eich polisïau.




# Y Tîm Ymgyrchu

**Eu rôl:**
**Eich cefnogi ym mhopeth sydd angen arnoch.**
**Rhannu eich cynnwys.**
**Sôn amdanoch wrth eraill.**
**Eich cynrychioli.**

- **Rhoi amser i chi ymlacio (mae'n syniad i chi drefnu rhywbeth braf i'w wneud ar ôl canlyniadau'r etholiadau)**

**Mae cael Tîm Ymgyrchu yn gwneud eich proses etholiadol yn fil gwell.**


**Recriwtio 2-5 o bobl i'ch Tîm Ymgyrchu**



# Y Tîm Ymgyrchu

**Gofyn i'ch ffrindiau ac i unrhyw sy'n ddylanwad ar y gymuned fyfyrwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod gallu ymddiried ynddynt.**

Nodwch bwy sydd wedi cytuno i wneud pa beth a phryd.
Beth am ddogfen Google a rennir?




Creu targedau cyraeddadwy, ysgogi eich gilydd a dathlu'r llwyddiannus trwy gydol y profiad. Trefnu amser i ddod at eich gilydd. Sicrhewch eich bod yn cydnabod aelodau tîm sy'n gweithio'n galed.

Mae yna beryg y gallai'r aelodau mwyaf dibynadwy anghofio y cyfarfod bore Sadwrn hwnnw.
Mae cyfathrebu'n barhaol yn hollbwysig – beth am rannu calendr Outlook neu grŵp Facebook?

Manteisiwch ar sgiliau a phrofiadau aelodau penodol o'ch tîm.
A oes rhywun yn astudio mathemateg ac yn hen law ar Excel neu oes un sydd â dawn cyfryngau cymdeithasol?

# Cyhoeddusrwydd





# Syniadau ar gyfer Ymgyrch Etholiadol:

- Gwisgo crysau-T gyda'ch enw a'r rôl eich bod yn sefyll amdani arnynt.
- Posteri i'w gosod o amgylch yr Undeb (dwyieithog)
- Fideos hwyliog.
- Stondinau ar y campws.
- Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol.

- Siarad gyda myfyrwyr pan yn mynd yma a thraw.
- Lledu eich enw.
- Cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Undeb (cwis yr ymgeiswyr).
- Mynd i ddarlithoedd a seminarau i godi ymwybyddiaeth.
- Mynd i siarad gyda chlybiau a chymdeithasau pan fyddant yn cyfarfod.



**GWNEWCH SŴN, FE YDYCH CHI'N DEILWNG A CHYMERWCH GYMAINT O LE AG Y MYNNWCH!**

# Posteri

- Cadwch bosteri yn syml – paid â rhoi gormod arnynt
- Sicrhewch eu bod yn ddwyieithog
- Defnyddiwch yr un lliwiau
- Rhowch eich slogan ynddo






# Y Cyfryngau Cymdeithasol

**Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o estyn at bobl a lledaenu eich ymgyrch.**

**Cofiwch nad pleidlais gadarn yw pob un sy'n licio'ch cynnwys!**




- **Rhowch eich tro eich hun ar eich ymgyrch (defnyddio'r un lliwiau)**
- **Peidiwch â defnyddio pethau na fyddai ar gael i bob ymgeisydd.**
- **Mae Canva yn offer gwych i wneud deunydd ymgyrchu ac yn rhan ac am ddim.**

# Pethau allweddol i'w deud a'u rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol

**Eich enw, y rôl.**

**I'ch rhoi yn #1**

**Os na, yn #2.**

**Lle a sut y gallen nhw fwrw pleidlais.**

**Y dyddiadau.**



# Siarad gyda myfyrwyr

**EICH CYNNIG O 1 FUNUD I FYFYRWYR**

**DICTER: A oes yna rywbeth, yn eich barn chi, sydd angen ei newid neu y dylai'r Undeb fod yn ei wneud?**

**GOBAITH: Esbonio sut gall pethau wella**

**GWEITHREDU: "Os ydych chi'n pleidleisio drostof i, bydda' i'n trio fy ngorau glas i roi'r newid hyn ar waith".**




**Cofiwch ofyn i'r fyfyrwyr ynghylch y newid maen nhw eisiau ei weld. Efallai byddwch yn denu rhai o'ch plaid gan ddweud y byddwch yn chwilio i weithredu ar newid maen nhw eisiau.**

# Cyngor Gorau ar Siarad gyda Myfyrwyr




- Ewch atyn nhw mewn ffordd gyfeillgar a gofyn a ydyn nhw’n gyfforddus sgwrsio gyda chi.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfeillgar ac yn agos atoch.
- Ewch atyn nhw, peidiwch â disgwyl iddyn nhw ddod atoch.
- Os nad ydyn nhw am siarad, mae’n iawn a nid yw’n bersonol.
- Gofynnwch gwestiynau agored.



# Clybiau a Chymdeithasau

**Mae gennym gymaint o glybiau a chymdeithasau MANTEISIWCH ARNYNT!**

**Ewch i siarad gyda'r grwpiau hyn. Boed trwy fynychu eu cyfarfodydd neu fynd i un o'u sesiynau ymarfer neu i digwyddiadau ganddynt. Gwnewch yn siŵr i ofyn a threfnu mynd pan fydd yn gyfleus.**

**Gallwch ofyn i gael eich hyrwyddo gan y grŵp ond bydd angen profi fod i'r grŵp gynnal pleidlais a phrofi eu bod yn eich cefnogi fel ymgeisydd yn lle fel ffrind. Os na wneir y broses hon yn gywir, gall arwain at gosbau i chi ac i'r grŵp felly mae llawer o glybiau a chymdeithasau yn gyndyn o'i wneud.**



# Cydweithio

**Gallwch gydweithio gydag ymgeiswyr eraill yn yr etholiadau. Gall hyn ddod ar draws yn gefnogol a chyfeillgar tuag atoch eich gilydd, rhywbeth mae pobl yn hoff o'i weld.**

**Cewch chi hefyd ymgyrchu ar y cyd a dweud "bydden ni'n gweithio gyda'n gilydd os cawn ni ein hethol" ayyb.**

Gelwir hyn yn 'Sefyll fel Grŵp'

**Dyna wnaeth rhai o'r swyddogion yn yr etholiadau yn ystod y pandemig.**



# Cynnal Ymgyrch Hygyrch

**Pan yn gwneud cynnwys etholiadol, mae'n bwysig cofio bod pawb yn wahanol felly dylid ystyried gwahanol ffyrdd o gyrraedd pobl trwy amrywiaeth o ddeunydd. Mae yna ychydig o bethau y gallech chi wneud i wella eich ymgyrch:**

- **Gwneud yn siŵr bod ffurf amgen i bob llun ar-lein, a bod unrhyw gynnwys mewn llun yn cynnig testun plaen mewn disgrifiad neu ddolen.**
- **Cynnwys is-deitlau yn unrhyw fideo y gwnewch chi.**
- **Bod yn ofalus pan yn dewis lliwiau, fel bod digon o gyferbyniad yng nghefndir testun a fel na fydd yn drysu pobl lliwddall.**
- **Cyfrifoldeb pawb yw sicrhau bod deunydd yn hygyrch ond mae hefyd yn ymgyrchu'n gall – pam cuddio deunydd eich ymgyrch rhag pleidleiswyr posibl?**




# Yr Wythnos Bleidleisio







# Nifer a bleidleisiodd dros amser – fesul dydd



# Nifer a bleidleisiodd dros amser – fesul dydd



# Gofalwch amdanoch eich hun

## YMLACIWCH

Ar y diwrnodau lle bydd llai yn pleidleisio yn is, manteisiwch ar y diwrnodau hyn i ddod ‘nôl atoch eich hun ac ymlacio.


Trefnu rhywbeth hwyliog a hawdd i wneud yng nghanol yr wythnos gyda’ch tîm ymgyrchu

Gwnewch yn siŵr na fydd eich gwaith Prifysgol yn gwrthdaro. Os oes gennych chi asesiad i’w wneud erbyn yr wythnos bleidleisio, ceisiwch ei orffen o flaen llaw fel na fydd rhaid i chi boeni amdano.


Gosod amserau ymgyrchu – gwneud yn siŵr eich bod yn dadflino gyda’r hwyr.



# Cwestiynau



# Y Cyfarfod Mawr



**10/03/2025 @ 18:00-20:00**
**Prif Ystafell UM**

## Mae rhaid i 100 o fyfyrwyr ddod iddo ddigwydd – dwedwch wrth bawb dych chi’n ei nabod!

**Cyfle gwych i weld Democratiaeth Undeb y Myfyrwyr ar waith!**





# Ydych chi'n barod i gychwyn ar eich Ymgyrch Etholiadol?

